



Cyfarfod

PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD LLUN, 3YDD MEHEFIN, 2019

I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor,

Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 24 Mai 2019)

PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Steve Collings
Dafydd Owen
Peter Read
Sedd Wag - Plaid Cymru

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Elfed Williams
Gareth Jones

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Jason Wayne Parry

Eryl Jones-Williams
Angela Russell

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Gareth Williams

Aelod Unigol (2)

Y Cynghorydd
Sion W. Jones

Sedd Wag - Aelod Unigol

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2019 - 2020

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd ar gyfer 2019 - 2020

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11 Ebrill 2019 fel rhai cywir

7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

6 - 20

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

- a) 16.04.2019
- b) 12.04.2019
- c) 20.03.2019

Eitem 6

PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 11.04.19

Yn bresennol: Y Cynghorwyr, Steve Collings, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

Hefyd yn Bresennol: Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, Sion Jones a Jason Wayne Parry,

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 o Ragfyr 2019 fel rhai cywir.

5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 20.12.2018 a 28.01.2019

6. UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth yr Adran Amgylchedd yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo cynnig gan y diwydiant tacsï i adolygu'r uchaf bris y gall ei godi am deithiau mewn cerbyd hacni yn y Sir. Amlygwyd ei bod yn ofynnol i unrhyw gais am newid i'r uchaf bris gael ei gyflwyno gan y diwydiant a chadarnhawyd bod cais diweddar i adolygu'r prisiau, wedi ei gyflwyno gan Mr J Pritchard, perchennog cwmni tacsï lleol. Ategwyd nad oedd cais i adolygu'r uchaf bris wedi ei dderbyn ers 2011 a phwysleisiwyd nad oedd yr uchaf bris yn berthnasol i deithiau mewn cerbydau hurio preifat.

Cyfeiriwyd at dabl yn yr adroddiad oedd yn cymharu prisiau cyfatebol am daith 2 filltir. Nodwyd bod y cynnydd arfaethedig wedi ei gyfrifo drwy ychwanegu chwyddiant ar gyfartaledd o 2.6% y flwyddyn at bris taith y filltir a bennwyd yn 2011. Awgrymwyd, o fewn y diwydiant mai prisiau'r teithiau sydd yn gyrru'r gystadleuaeth a mynegwyd mai annhebygol fyddai i bob cwmni godi eu prisiau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chwynion prisiau cerbydau tacsî hacni, nodwyd mai ychydig iawn o gwynion sydd wedi ei derbyn gan y cyhoedd ac y byddai cwynion yn fwy tebygol o gael eu cyflwyno gan y diwydiant ei hun.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a thystiolaeth i gefnogi'r datganiad nad oes cynnydd wedi bod mewn costau tanwydd, nodwyd bod graffiau cyfartaledd prisiau tanwydd ar draws y wlad gan yr RAC a'r AA ddim yn ymddangos llawer gwahanol ers 2011.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol gan Aelodau unigol:

- Bod y pris arfaethedig yn deg o gymharu, ar gyfartaledd, prisiau Siroedd eraill ar draws y Gogledd
- Bod yr Uned Trwyddedu yn ymateb i gais gan y diwydiant i adolygu'r prisiau
- Nad oes rheidrwydd i gwmnïau godi eu prisiau – uchafswm sydd yn cael ei osod
- Bod ffioedd wedi codi ac felly derbyniol fyddai rhoi ystyriaeth deg i'r cynnig gan gwmni lleol i adolygu'r prisiau

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchaf bris fel bod modd i'r diwydiant tacsî godi am deithiau mewn cerbyd hacni yn y Sir.

7. CYFLWYNO CYLCH GORCHWYL AR GYFER YSTYRIED CYNWYS POLISI TRWYDDEDU TACSI UNEDIG DRAFFT

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran yr Amgylchedd yn gwneud cais i'r Pwyllgor sefydlu grŵp tasg a gorffen o blith aelodau'r Pwyllgor i ystyried cynnwys y polisi trwyddedu unedig drafft cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Atgoffwyd yr aelodau o benderfyniad y Pwyllgor (11.09.19) i gymeradwyo cyfeiriad cyffredinol prif gynigion ar gyfer adolygu'r polisïau presennol mewn perthynas â thrwyddedu tacsî a chreu Polisi Trwyddedu Tacsî Unedig newydd yn dilyn cynnydd yn y nifer o geisiadau i drwyddedu cerbydau yn groes i'r polisi ac yn sgil y Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

Amlygwyd mai ystyried y polisi drafft fyddai prif nôd y grŵp tasg a gorffen. Bydd gofyn i'r grŵp gyflwyno eu sylwadau / argymhellion i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'r bwriad i gyflwyno'r angen i ymgeisydd am drwydded gyflwyno tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, nodwyd nad oedd gofyn cyfreithiol ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, ond yn dilyn trafodaethau gyda'r Uned Cludiant, awgrymwyd yr angen i gael polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ei le. Cefnogwyd y bwriad a phwysleisiwyd yr angen i'r ddogfen fod ar gael yn y cerbyd. Awgrymwyd y byddai'r cwmni yswiriant yn dymuno hyn hefyd.

Sylw yn codi o'r drafodaeth ddilynol gan Aelodau unigol:

- Mai doeth fyddai ystyried cynrychiolwyr o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd

PENDEFYNWYD enwebu y Cynghorywr Annwen Hughes, Angela Russell, Peter Read, Elfed Williams ac Edgar Owen fel cynrychiolwyr i gymryd rhan yn y Grwp Tasg a Gorffen gyda'r Cynghorydd Eryl Jones Williams fel aelod wrth gefn.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:35am

Eitem 7

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 16.04.2019

Yn bresennol: Y Cyngorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes ac Angela Russell

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwysu'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nŵd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Amlygodd bod yr holl ddigwyddiadau yn rhan o'i orffennol ac erbyn hyn gyda pherthynas dda gyda'i gyn bartner a'i fod yn gweithio yn galed i gefnogi ei blant.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

b) PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd, ar hyn o bryd, yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- geirda a dderbyniodd gan ei ddarpar gyflogwr
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn yn Awst 2012 gan Lys Ynadon Gwynedd am drosedd o ddinistrio eiddo yn groes i Ddeddf Difrod Troseddol 1971. Cafodd orchymyn i dalu iawndal o £300 a chostau o £85. Yn Rhagfyr 2012 cafodd ei ddyfarnu yn euog gan Lys Ynadon Gwynedd ar ddau gyhuddiad o guro. Derbyniodd orchymyn atal, gorchymyn cymunedol am 18 mis a chostau o £200. Yn mis Hydref 2013 cafodd ei ddyfarnu yn euog am beidio â chydymffurfio gyda gofynion y gorchymyn cymunedol yn groes i ofynion Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Derbyniodd ddirwy o £50 a gorchymyn i dalu £50 o gostau.

ch) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau o ddifrod troseddol a throseddau o ymosodiadau cyffredin. Mae paragraff 6.6 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Mae paragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

d) Rhoddodd yr Is bwyllgor ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Daeth yr Is bwyllgor i benderfyniad bod troseddau 2012 yn droseddau o drais. Gan fod y troseddau hyn wedi digwydd llai na 10 mlynedd yn ôl rhagdybiwyd yr angen i wrthod y cais o dan baragraffau 6.6 a 16.1 o'r Polisi. Nid yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a gellid gwro oddi arnynt os gellid cyfiawnhau ffeithiau'r achos. Er mwyn ystyried y posibilrwydd o wyro rhoddodd yr Is-bwyllgor sylw arbennig i bwyntiau bwled paragraff 5.1 o'r polisi sydd yn cynnwys difrifoldeb, perthnasedd, dyddiad y comisiwn, dyddiad euogfarn, oedran yr ymgeisydd yn amser euogfarn, y ddedfryd a roddwyd, os oes patrwm o droseddu, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Ystyriwyd bod troseddau 2012 wedi deillio o ddigwyddiadau domestig gyda chyn partner yr ymgeisydd. Amlygwyd bod y collfarnau oddeutu 6 – 7 oed a'r Polisi'n nodi'n glir y dylai 10 mlynedd fod wedi mynd heibio. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai gadael y Polisi yn gynamserol ac o ganlyniad nid oeddynt yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, ar hyn o bryd, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Rhoddodd eglurhad llawn am y pwyntiau cosb a gafodd ar ei drwydded. Amlygodd ei gyflogwr bod collfarnau 1991 a 1998 wedi cael ystyriaethau llawn mewn is-bwyllgor blaenorol lle caniatwyd cais yr ymgeisydd am drwydded. Ateggodd bod yr ymgeisydd yn yrrwr da ac roedd yn canmol ei waith.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gyflogwr o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- sylwadau llafar a gyflwynodd ei gyflogwr yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad trwydded gyrru'r ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn yn Ebrill 1991 gan Lys y Goron Caernarfon ar gyhuddiad o achosi niwed corfforol yn groes i adran 47 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861. Cafodd orchymyn cymunedol o 100 awr a gorchymyn i dalu £100 o iawndal a £124 o gostau. Yn mis Hydref 1998 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Bangor am ddwyn gan ei

gyflogai yn groes i adran 1 o'r Ddeddf Dwyn 1968. Cafodd ddirwy o £350 a gorchymyn i dalu £30 o gostau. Yn Mehefin 2015 gwnaed honiad gan Gyngor Gwynedd ei fod wedi gweithredu fel gyrrwr hacni heb fod a thrwydded gyfredol (trosedd yn groes i adran 47 o Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847). Honnwyd hefyd nad oedd ganddo esgus rhesymol dros beidio â dangos ei drwydded gyrrwr cerbyd hacni ar gais swyddog awdurdodedig o'r Cyngor (trosedd yn groes i adran 53 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976). Yn dilyn ymholiadau pellach gan yr Uned Trwyddedu nid oedd gan yr ymgeisydd drwydded gyrru mewn grym. O ganlyniad, cyflwynodd y Cyngor erlyniad yn ei erbyn yn Llys Ynadon Caernarfon. Fodd bynnag, yn dilyn pryderon gan yr amddiffyniad o ran derbynioldeb tystiolaeth yr erlyniad, cytunodd y Cyngor i dynnu'r erlyniad yn ôl heb i'r mater fynd i dreial.

Yn mis Gorffennaf 2016 derbyniodd yr ymgeisydd 6 pwynt cosb am drosedd MS90 (methu darparu gwybodaeth am hunaniaeth gyrrwr) – amlygwyd bod y pwyntiau hyn yn dod i ben Gorffennaf 2019.

Nodwyd yn adroddiad y Swyddog Trwyddedu bod swyddogion yr Uned Trwyddedu wedi amau bod yr ymgeisydd wedi parhau i yrru cerbyd tacsï ar ôl y dyddiad y daeth ei drwydded i ben (6.3.19) Er hynny, ni chyflwynwyd manylion am y digwyddiad (amser, lleoliad a disgrifiad o'r hyn a welwyd).

- ch) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 o'r Polisi yn nodi bod "materion eraill i'w hystyried" yn cynnwys ymhlith eraill hysbysiadau cosb benodedig, torri amodau trwyddedu, a chyhuddiadau.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy'r 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau sydd yn cynnwys, ymhlith eraill, ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol.

Mae paragraff 8 o'r Polisi yn cyfarch troseddau anonestrwydd a pharagraff 8.2 yn nodi byddai cais yn cael ei wrthod fel rheol os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am drosedd sydd yn cael ei gynnwys yn y paragraff ac sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru ymhlith materion eraill troseddau sydd yn ymwneud a lladrata.

Ystyriwyd paragraff 12.2 sydd yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae MS90 - methu darparu gwybodaeth am hunaniaeth gyrrwr yn cael ei gynnwys. Nodir ym mharagraff 12.3 y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os yw'r ymgeisydd wedi cyflawni trosedd traffig difrifol unigol ac nad ydyw wedi bod yn rhydd o gollfarn am o leiaf 6 mis.

Mae paragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd efallai yn creu hanes o ail droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Mae paragraff 17.0 o'r Polisi yn ymdrin â thorri deddf, is ddeddf neu amod trwydded gyda pharagraff 17.1 o'r Polisi yn nodi y byddai'n annhebygol rhoi trwydded i ymgeisydd os oes collfarn am drosedd oni bai bod cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiweddaraf.

Ystyriwyd amod 6 o amodau trwydded gyrru cerbyd hacni a hurio preifat, lle nodi'r bod gofyn i yrrwr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ar ôl derbyn collfarn am unrhyw drosedd dan ddeddfwriaeth traffig. Os canfyddir bod tor amod, gall paragraff 17.1 o'r Polisi fod yn berthnasol lle amlinellir na fydd cais fel rheol yn cael ei ganiatáu oni bai bod 12 mis wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar o hynny.

d) Rhoddodd yr Is bwyllgor ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Ystyriwyd bod collfarn 1991 yn ymwneud a throedd o drais. Gyda'r drosedd wedi digwydd bron i 28 mlynedd yn ôl roedd yr is bwyllgor o'r farn na ddylai'r gollfarn fod yn sail i wrthod y cais. Yr un oedd y penderfyniad ar gyfer collfarn 1998 oedd yn ymwneud ag anonestrwydd. Roedd y gollfarn eto yn un hanesyddol ac yn unol â pharagraff 8.2 o'r polisi nid oedd yn sail i wrthod y cais.

Yn dilyn trafodaeth bellach ynglŷn â digwyddiad Mehefin 2015, amlygodd y Cyfreithiwr bod yr ymgeisydd wedi ei ganfod yn ddieuog gan Lys Ynadon Caernarfon o'r troseddau honedig hyn. Ategwyd bod yr ymgeisydd, yn dilyn yr erlyniad, wedi bod gerbron Is bwyllgor ym Mawrth 2016, a bod yr is bwyllgor ar yr achlysur hwnnw wedi caniatáu'r drwydded gan anwybyddu'r digwyddiad gan iddo gael ei ganfod yn ddieuog. Ni chafodd y digwyddiad ei ystyried at ddibenion y cais hwn chwaith.

Wrth drafod y pwyntiau gyrru a gronnwyd yn 2016, fe'i hystyriwyd fel troseddau moduro difrifol, ond gan nad oedd tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi derbyn collfarn o ganlyniad i'r troseddau, nid oedd yr is bwyllgor yn fodlon bod toriad i amod 6. Yn ogystal, roedd y pwyntiau gyrru wedi cronni dros 2 flynedd yn ôl ac felly o ystyried paragraff 12.3 ni ddylai fod yn sail i wrthod y cais.

Wrth ystyried amheuaeth y swyddogion trwyddedu fod yr ymgeisydd yn gyrru tacsï heb drwydded, cynghorodd y cyfreithiwr nad oedd amheuaeth gyffredinol yn ddigonol o dan y polisi - rhaid cael tystiolaeth o ddigwyddiad unigol lle adnabyddir toriad o ddeddfwriaeth benodol. O ganlyniad diystyriwyd y digwyddiad.

Er bod pob collfarn wedi ei ystyried yn unigol, bu rhaid i'r is-bwyllgor ei hystyried gyda'i gilydd, o dan baragraff 16.1. Penderfynodd yr Is bwyllgor nad oedd collfarnau 1991 a 1998, gyda'i gilydd, yn dangos hanes o aildroseddu oedd yn dangos diffyg parch at les eraill neu at eiddo. Fodd bynnag, gyda'r gollfarn ddiweddaraf wedi digwydd dros 10 mlynedd yn ôl, nid oedd paragraff 16.1 yn dod i rym.

O dan yr amgylchiadau, roedd yr is bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hur preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:45am a daeth i ben am 12:30pm

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 12.04.2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Dafydd Owen a Jason Wayne Parry

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwysu'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nŵd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fgythyad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Nododd bod y troseddau yn deillio o un digwyddiad pan oedd yn ifanc a ffol ac iddo dderbyn dirwy sylweddol am ei ffolineb. Ateggodd ei fod yn

gweithio fel gyrrwr i gwmni lleol a bod y cwmni hwnnw wedi cynnig swydd iddo gel gyrrwr hanci / hurio preifat petai ei gais yn cael ei ganiatau.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad trwydded gyrru yr ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau (DVLA).

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn yn Nhachwedd 2010 oddi wrth Lys Ynadon Caernarfon am gyfres o droseddau Dwys gipiodd gerbyd gan achosi damwain a difrod i eiddo yn groes i adran 12A, Deddf Lladrata 1968. Derbyniodd ddirwy o £85, gorchymyn i dalu costau o £85 ac iawndal o £1,400, a'i wahardd o yrru am 12 mis. Ar yr un achlysur cafodd ei gyhuddo o yrru cerbyd heb yswiriant, yn groes i adran 143(2) Deddf Traffig Ffyrdd 1988 lle cafodd ddirwy o £85 ac arnodiad ar ei drwydded gyrru. Cafodd hefyd ei gyhuddo o yrru'n groes i amodau trwydded gyrru, yn groes i'r Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 adran 87 (i) lle derbyniodd ddirwy o £15 ac arnodiad pellach ar ei drwydded gyrru.

Derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am dorri terfyn cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus ym Mehefin 2016.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 o'r Polisi yn cadarnhau bod "materion eraill i'w hystyried" yn cynnwys rhybuddion.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 12.2 sydd yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae IN10 (defnyddio cerbyd sydd heb ei yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti), LC20 (gyrru yn groes i amodau trwydded gyrru) a UT50 (dwys gipio cerbyd). Nodir ym mharagraff 12.4 y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os yw'r ymgeisydd wedi cyflawni trosedd traffig difrifol o fewn y 5 mlynedd diwethaf ac ni ddylid ystyried unrhyw gais pellach hyd nes bod cyfnod o 3 blynedd o leiaf wedi mynd heibio o fod yn rhydd rhag collfarnau.

Ystyriwyd paragraffau 12.6 i 12.11 sydd yn trafod gwahardd rhag gyrru. Nodir ym mharagraff 12.10 y bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd gollfarn sy'n arwain at waharddiad o 12 mis neu fwy, oni bai bod cyfnod o 18 mis wedi mynd heibio o ddiwedd y cyfnod gwahardd.

Ystyriwyd paragraff 13.1 sydd yn nodi 'mân droseddau traffig', fel trosedd sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Mae paragraff 13.2 yn nodi na fyddai collfarn neu fater arall i'w ystyried am fân drosedd traffig yn debygol o arwain at wrthod cais.

Daeth yr Is bwyllgor i'r casgliad bod troseddau Tachwedd 2010 yn droseddau traffig difrifol. Fodd bynnag, gan fod y troseddau hyn wedi digwydd dros 5 mlynedd yn ôl, nid oedd paragraff 12.4 yn berthnasol ac felly, yr Is bwyllgor yn fodlon nad oedd hyn yn sail i wrthod y cais. O ystyried bod un o'r troseddau wedi arwain at waharddiad gyrru, amlygwyd bod y drwydded wedi ei hadfer yn Nhachwedd 2011. O ganlyniad, nid oedd paragraff 12.10 yn berthnasol gan fod cyfnod o 18 mis wedi mynd heibio. Yn ychwanegol, ystyriwyd bod y digwyddiad o oryrru yn 2016 yn berthnasol i fân drosedd traffig ac wrth ystyried paragraff 13.2 o'r Polisi, nid oedd yr Is bwyllgor o'r farn y dylai'r drosedd yma ffurfio sail i wrthod y cais.

O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hur preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10 :30am

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 20.03.2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Steve Collings ac Edgar Wyn Owen

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Alun M Roberts (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nòd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am adnewyddu trwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y drosedd ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- sylwadau ei gynrychiolydd / darpar gyflogwr
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Derbyniodd yr ymgeisydd rybudd yn Rhagfyr 2012 oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru ar un cyhuddiad o fod mewn meddiant delweddau pornograffig eithafol, yn dangos cyfathrach rywiol neu ryw geneuol (*oral sex*) rhwng person ac anifail, trosedd yn groes i adran 63(1)(7)(D) o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008. Adroddwyd nad oedd gan yr ymgeisydd gollfarnau na rhybuddion eraill.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 o'r Polisi yn cadarnhau bod "materion eraill i'w hystyried" yn cynnwys rhybuddion.

Amlygwyd bod rhan 7 o'r Polisi yn cyfarch troseddau rhyw ac anwedduster. Ym mharagraff 7.1, nodir y mabwysiadir agwedd lem tuag at ymgeiswyr sydd â cholffarnau am droseddau rhyw neu faterion eraill sy'n gysylltiedig â hynny oherwydd bydd gyrrwyr trwyddedig yn aml yn cludo teithwyr sy'n teithio ar eu pen eu hunain ac sy'n ddi-amddiffyn. Nodir y bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes collfarn neu fater i'w ystyried yn gysylltiedig â'r troseddau rhyw mwyaf difrifol. Nodir hefyd y bydd disgwyl i ymgeiswyr, mewn perthynas â throseddau rhyw eraill, ddangos cyfnod sylweddol heb unrhyw gollfarn na mater i'w ystyried cyn cymeradwyr cais. Er hynny, er nad yw paragraff 7.1 yn diffinio beth yw'r troseddau rhyw mwyaf difrifol mae paragraff 7.2 yn rhestru'r troseddau mwyaf difrifol sydd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, meddu ar ffotograffau anweddus a pornograffi plant ac fe argymhellir gwrthod cais os oes collfarn neu faterion eraill i'w hystyried.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y rhybudd o 2012 yn ymwneud â throsedd o feddu ar ffotograffau anweddus, ac felly fe'i hystyriwyd fel mater o drosedd ryw ddifrifol gyda'r rhagdybiaeth o blaid gwrthod y cais o dan baragraff 7.2.

Adroddwyd bod yr Is-bwyllgor yn ymwybodol nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyro oddi wrth yr argymhellion os yw ffeithiau'r cais yn cyfiawnhau hynny ac ystyriaeth arbennig wedi ei roi i baragraff 5.1 o'r polisi: difrifoldeb y drosedd, ei pherthnasedd, dyddiad cyflawni, dyddiad collfarn, eich oed adeg collfarnu, y ddeddfryd a roddwyd, a oes patrwm o ymddygiad troseddol, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Prif ystyriaethau yn codi o'r drafodaeth:

- Bod y drosedd, er yn ei hanfod yn un ddifrifol, wedi arwain at rybudd yn hytrach na cholffarn.

- Bod y delweddau oedd ym meddiant yr ymgeisydd ganddo ar ddamwain, ar gyfrifiaduron yr oedd wedi eu prynu yn ail-law ac ar sustem rhannu ffeiliau. Er nad oedd yn ymwybodol sut y daeth y delweddau i'w feddiant cymerodd gyfrifoldeb amdanynt.
- Nid oedd yn ymwybodol o fodolaeth y delweddau hyd nes i'r Heddlu ddod a'r mater i'w sylw.
- Digwyddiad unigol. Nid oedd gan yr ymgeisydd gofnod o drosedd cyn nac ar ôl y digwyddiad.
- Roedd yr ymgeisydd yn ddeilydd tystysgrifau arf tanio a gwn saethu ers dros 30 mlynedd, gyda'r tystysgrifau wedi eu hadnewyddu yn 2017. Er na wyddai'r Is-bwyllgor ar ba sail y penderfynodd yr Heddlu ganiatáu'r trwyddedau hyn, nododd y cyfreithiwr bod gan yr Heddlu rymoedd eang wrth benderfynu trwyddedau o'r fath. Er nad yw'r prawf "addas a phriodol" yn berthnasol i drwyddedu drylliau, mae'n bur annhebygol y byddai'r Heddlu wedi caniatáu eu hadnewyddu oni bai eu bod o'r farn bod yr ymgeisydd yn gwbl addas a phriodol i fod mewn meddiant dryll.

Wedi ystyried yr holl faterion roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y gellid cyfiawnhau gwyrto oddi wrth yr argymhelliad yn y Polisi yn yr achos yma. O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hur preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd a'i ddarpar gyflogwr i ymhelaethu ar y cais a chynnig eglurhad am y drosedd. Gan nad oedd gan yr ymgeisydd bellach yr hawl i fudd-dal na chredyd pensiwn roedd angen swydd arno. Ategodd y darpar gyflogwr bod ganddo swydd 16 awr ar gyfer yr ymgeisydd a'i fod yn ymddiried ynddo i gyflawni'r gwaith, wedi ei adnabod ers dros 50 mlynedd.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad

- sylwadau ei ddarpar gyflogwr
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Gogledd Orllewin Cymru (Tachwedd 2017) am gyhuddiad o dwyll gan nad oedd hysbysu newid amgylchiadau fyddai yn effeithio ar ei hawl i fudd-dal (Chwefror 2014). Roedd y drosedd yn groes i adran 111A(1A) Deddf Gweinyddiaeth Nawdd Cymdeithasol 1992 a derbyniodd yr ymgeisydd ddirwyo £180.00 a gorchymyn i dalu costau o £85.00 a gordal dioddefwr o £30.00. Amlygwyd nad oedd ganddo gollfarnau na rhybuddion pellach

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyd 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod, neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os bydd collfarn yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, twyll budd-dal.

Prif ystyriaethau yn codi o'r drafodaeth:

- Dim ond un gollfarn oedd gan yr ymgeisydd
- Roedd y drosedd o dwyll budd-dal yn ymweld yn disgyn ar waelod y sbectwm o ddifrifoldeb (oherwydd natur a swm y gosb). Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei sefyllfa o fethu â datgan bod ei wraig yn derbyn tâl gan gymydog oedrannus am gymorth o amgylch y cartref. Nid oedd tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi gwneud budd ariannol sylweddol o ganlyniad i gyflawni'r drosedd. Mae'r ddedfryd cymharol isel a dderbyniodd am y gollfarn (dirwy, yn hytrach na charchar) yn cadarnhau barn yr Is-bwyllgor nad oedd y drosedd ymhlith yr achosion mwyaf difrifol o dwyll.
- Bod lefel uchel o ymddiriedaeth yn y gymuned tuag at yr ymgeisydd
- Bod ei ddarpar gyflogwr, yn awyddus iddo ymuno a'i gwmni i wneud gwaith gyrru tacsî.

Wedi ystyried yr holl faterion roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y gellid cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad yn y Polisi yn yr achos yma. O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hur preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded

Dechreuodd y cyfarfod am 10:15am a daeth i ben am 11 :45am

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 20.03.2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Steven Collings ac Edgar Owen

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fgythyad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol ag adroddiad trwydded gyrru'r ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Eglurodd pob sefyllfa yn fanwl yn eu tro. Ategodd ei gyflogwr ei fod yn adnabod yr ymgeisydd yn dda a'i fod yn yrrwr da, yn berson cydwybodol a dibynadwy.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gyflogwr o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- sylwadau llafar a gyflwynodd ei gyflogwr yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad trwydded gyrru yr ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Ym mis Mai 2017, derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb ar ei drwydded gyrru am dramgwyddo gofynion ynghylch rheoli cerbyd, ffonau symudol ac ati (y pwyntiau hyn yn dod i ben Mai 2019) Ystyriwyd 6 pwynt ychwanegol a dderbyniodd ym mis Medi 2017 am dramgwyddo gofynion ynghylch rheoli cerbyd, ffonau symudol ac ati (y pwyntiau hyn yn dod i ben Medi 2020). Yn mis Rhagfyr 2017 derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb arall am dorri terfyn cyflymder ar ffordd gyhoeddus (y pwyntiau hyn yn dod i ben Rhagfyr 2020). Nid oedd gan yr ymgeisydd gollfarnau, rhybuddion nac arnodiadau pellach.

Ystyriwyd paragraff 2.3 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r bod 'materion eraill i'w hystyried' yn cynnwys 'hysbysiadau cosb benodedig neu hysbysiadau cosb eraill'.

Ystyriwyd paragraff 12.2 sydd yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi.

Ystyriwyd paragraff 13.1 sydd yn nodi y caiff troseddau traffig eraill sydd heb eu rhestru yn y polisi yn cael eu trin fel 'mân droseddau traffig'. Mae'r paragraff hefyd yn ddryslyd, yn cyfeirio at 'mân drosedd gyrru' fel trosedd sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Er hynny, argymhellir bod rhaid i unrhyw drosedd sydd yn denu mwy nag 3 pwynt cosb, a heb ei gynnwys ym mharagraff 12.2, gael ei gyflwyno / ystyried fel 'mân drosedd traffig'.

Mae paragraff 13.3 yn nodi y gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd.

Gan fod yr ymgeisydd eisoes yn ddeilydd trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat, fe ystyriodd yr Is Bwyllgor amod 6 o'i drwydded bresennol. Mae'r amod yn nodi bod gofyn i yrrwr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ar ôl derbyn collfarn am unrhyw drosedd dan ddeddfwriaeth traffig. Os canfyddir bod tor-amod, gall paragraff 17.1 o'r Polisi fod yn berthnasol lle amlinellir na fydd cais fel rheol yn cael ei ganiatáu oni bai bod 12 mis wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar o hynny.

Prif ystyriaethau yn codi o'r drafodaeth:

- Bu i'r Is Bwyllgor sefydlu bod yr arnodiadau gyrru, er yn fater o bryder, ddim yn cyrraedd trothwy gwrthod y cais.
- Ni ystyriwyd y troseddau fel troseddau traffig difrifol gan nad ydynt wedi eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r polisi – fe'u hystyriwyd fel mân droseddau traffig.

- Daeth yr Is Bwyllgor i'r canlyniad bod mwy nag un mater i'w ystyried am yr un drosedd, sef Mai 2016 a Medi 2017 ac felly yn amlygu'r angen i ystyried paragraff 13.3. Fodd bynnag, yn wahanol i ddarpariaethau eraill y Polisi, nid yw paragraff 13.3 yn gosod rhagdybiaeth o blaid gwrthod ac yn hytrach mae'n cynghori '*mae'n bosibl*' (yn hytrach na ddylai) fod gwrthodiad. O ganlyniad i ddiffyg arweiniad, ni chafodd yr Is-bwyllgor ei darbwylllo bod achos dros wrthod yn deillio o'r mater yma.
- Yn dilyn cadarnhad gan yr ymgeisydd mai dirwy drwy rybudd cosb benodedig a phwyntiau yn unig a dderbyniodd mewn perthynas â'r arodiadau (ac nid collfarn droseddol), nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod amod 6 o'r drwydded gyrru cerbyd hacni a hurio preifat, yn dechnegol wedi ei dorri. Er hynny, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn, fel ymarfer da, y dylid adrodd ar unrhyw fater ac argymhellwyd, bod yr ymgeisydd yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o unrhyw arodiadau i'r dyfodol.
- O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hur preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 :35pm a daeth i ben am 14:05pm